

Rhaid talu am brydau ysgol pob disgybl drwy'r ddolen ar y dudalen taliadau rhyngwyd ar wefan y Cyngor. Mae'r dudalen hon yn cynnwys canllaw cam wrth gam i'ch helpu drwy'r broses. Fodd bynnag, os bydd gennych unrhyw ymholiadau, **[cysylltwch ag ysgol eich plentyn](#)**.

### **NODER: RHAID I CHI GANIATÁU 24 AWR I'CH TALIAD GAEL EI GYMHWYSO AT GYFRIF PRYDAU YSGOL EICH PLENTYN.**

Mae hyn oherwydd nad yw'r taliad yn cael ei brosesu'n uniongyrchol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ond gan ein darparwr taliadau – **Is-adran Rheoli Taliadau Gwasanaethau Meddalwedd Capita**.

1. Ewch i dudalen gartref gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar '[www.bridgend.gov.uk/cy/](http://www.bridgend.gov.uk/cy/)' a chlicio ar y ddolen '**Gwneud Taliad**':

2. Bydd y ddolen yn mynd â chi i'r porth talu a'r eitemau y gellir talu amdanynt ar-lein.

Dewiswch '**Prydau Bwyd Ysgolion Cynradd**' neu '**Prydau Bwyd Ysgolion Uwchradd**' o'r rhestr.

3. Cewch restr o naill ai ysgolion Cynradd neu Uwchradd yn dibynnu ar eich dewis yng ngham dau. Dewiswch ysgol eich plentyn o'r rhestr (dangosir ysgolion cynradd fel enghraifft). Defnyddiwch y bar sgrolio ar ochr dde'r sgrin i weld mwy o ysgolion.

4. Ar y sgrin nesaf, cliciwch ar '**Prydau Ysgol Disgyblion**'. Bydd hyn yn mynd â chi at ddechrau'r broses dalu.

5. Rhowch '**Rhif y Disgybl**', '**Enw Disgyblion**', '**Cyfenw Disgyblion**' a '**Swm**'. Noder bod yn rhaid i chi lenwi'r HOLL feysydd.

6. Cliciwch ar '**Parhau**'.

7. Gwiriwch y manylion sydd ar y sgrin. Cliciwch ar Diwygio neu Dileu os bydd angen i chi wneud newidiadau.

I ychwanegu arian at gyfrif disgybl arall, cliciwch ar '**Ychwanegu Gwasanaeth Arall**' ac ailadrodd camau dau i saith.

Unwaith rydych yn barod i dalu, cliciwch ar '**Parhau**'

8. Wrth glicio ar '**Parhau**', bydd yn gofyn am eich dewis ddull o dalu. Os nad ydych eisoes wedi gosod eich '**Waled**', dewiswch '**Talu gan ddefnyddio cerdyn**', fel arall, dewiswch '**Waled**'.

9. Os ydych yn defnyddio '**Waled**', bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif Google a dilyn cyfarwyddiadau Google. Os ydych yn defnyddio cerdyn credyd/debyd, rhowch fanylion eich cerdyn. Mae'r HOLL feysydd yn ofynnol. Cliciwch ar '**Parhau**'

10. Bydd hyn yn eich arwain at y dudalen '**Gwybodaeth Ychwanegol**'. **MAE ANGEN I CHI DDIWYGIO Enw Deiliad y Cerdyn\*** yn unol â'r enw sydd ar y cerdyn er mwyn gallu gwneud taliad.

Am dderbynneb, rhowch eich cyfeiriad e-bost a chadarnhau eich e-bost.

Cliciwch ar '**Parhau**'

11. Byddwch yn mynd i '**Tudalen Cadarnhau Taliad**'. Gwiriwch eich manylion a chlicio ar '**Gwneud Taliad**'.

12. Mae eich taliad nawr wedi'i gwblhau! '**Argraffwch y dudalen hon fel cadarnhad o'ch taliad**'